

POLISI RHIFEDD YSGOL MORFA NEFYN (2014)

Mae Ysgol Morfa Nefyn wedi ymrwymo i godi safonau rhifedd ei holl ddisgyblion, er mwyn iddynt ddatblygu'r gallu i ddefnyddio sgiliau rhifedd yn effeithiol yn holl feysydd y cwricwlwm a chael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddygymod yn hyderus â gofynion bywyd pob dydd a dysgu gydol oes.

Mae'r polisi hwn yn cymryd i ystyriaeth y 'Rhaglen Rhifedd Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2012), Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru 2013), 'Canllawiau cynllunio'r cwricwlwm (Llywodraeth Cymru 2013), Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (Estyn, 2010) a 'Rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a 3: astudiaeth gwaelodlin' (Estyn, 2013)'

Mae rhifedd yn un o sgiliau hanfodol bywyd ac mae'n rhaid i ddysgwyr allu cymhwyso'r sgil hwn ar draws y cwricwlwm mewn gwahanol feysydd pwnc, ac yng nghyd-destunau bywyd go iawn. Mae mathemateg yn rhan o rifedd, ond er mwyn bod yn rhifog mae'n rhaid i chi allu cymhwyso rhai o'r sgiliau mathemategol hyn mewn llawer mwy o gyd-destunau na dim ond mewn gwersi mathemateg ac ar draws sawl maes pwnc. Felly rydym yn disgwyl i bob athro/athrawes fod yn athrawon rhifedd. Er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng rhifedd a mathemateg, rydym wedi diffinio rhifedd yn y ffordd ganlynol at ddibenion y rhaglen hon:

"Adnabod a defnyddio sgiliau ymresymu rhifiadol er mwyn datrys problem a chyflawni'r gweithdrefnau rhifiadol sy'n galluogi pobl i gyfrifo a dangos eu hatebion".
(Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol, Medi 2012)

Amcanion Rhifedd Ysgol Morfa Nefyn

Sicrhau:

- bod rhifedd yn flaenoriaeth o fewn yr ysgol
- bod agwedd bositif yn cael ei fabwysiadu tuag at rifedd
- bod yna gyfleoedd i helpu'r dysgwyr i fagu hyder mewn rhifedd ac i fedru cymhwyso a chyfathrebu eu canlyniadau ar draws y cwricwlwm ac yng nghyd-destun bywyd bob dydd
- bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o sgiliau sylfaenol rhifedd a bod ganddynt strategaethau effeithiol i fedru adalw ffeithiau rhif angenrheidiol yn gyflym a chywir
- bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i fod yn rhifog, yn medru cyfranogi mewn trafodaethau yn ymwneud a rhifedd ac yn medru gweithio'n hyblyg a rhesymegol
- y dysgwyr yn cael eu hannog i weithio'n effeithiol o fewn grŵp ac i ddod o hyd i strategaethau priodol.
- fod cysondeb wrth addysgu strategaethau cyfrifiadau sylfaenol, datblygu sgiliau cyfrifiadau pen y dysgwr, dulliau cofnodi effeithiol ar gyfer cyfrifiadau arferol a'r defnydd priodol o gyfrifianellau ar draws pob cyfnod allweddol ac ar draws y cwricwlwm
- cyfloed digonol i'r dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau rhifedd, yn enwedig eu sgiliau rhif a rhesymu rhifol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- bod gweithgareddau digonol yn cael eu cynnig i gefnogi cysondeb a pharhad yn natblygiad sgiliau rhifedd y dysgwyr
- bod y gweithgareddau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn herio pob dysgwr .
- bod sgiliau rhifedd y dysgwyr yn cael eu hasesu yn effeithiol a bod eu cynnydd yn cael eu tracio
- bod yna gyfleoedd yn bodoli i wella gwybodaeth, sgiliau a hyder athrawon er mwyn datblygu sgiliau rhifedd y dysgwyr.

Cynllunio'r Cwricwlwm (Cylch 2013 – 2015)

Mae'r Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol yn fan cychwyn ar gynllunio'r cwricwlwm.

Dyletswydd pob athro dosbarth yw arwain y broses o fapio'r pwnc yn ôl y Fframwaith.

Seilir y cynllunio ar gylch dwy flynedd ac mae angen adolygu'r broses yn rheolaidd

Mae angen i bob aelod o staff i dorri'r cynllunio i fyny i gynllunio tymor hir, canolig a byr

- Ffocws pob cam o'r cynllunio yw codi safonau
- Rhaid sicrhau bod gwahaniaethu yn cael lle blaenllaw yn y cynllunio gan sicrhau gweithgareddau heriol ar gyfer pob dysgwr gan gynnwys dysgwyr AAY a MAT
- Sicrhau bod rhaglenni ymyrraeth strategol yn eu lle i gefnogi dysgwyr sgiliau sylfaenol
- Cynllunio er mwyn sicrhau atgyfnerthu a datblygu sgiliau'r dysgwyr
- Cynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr yn y broses o newid

Asesu, Recordio a Tracio

- Asesir y dysgwyr yn erbyn y Rhaglen Rhifedd Cenedlaethol ar draws y cwricwlwm
- Rhaid i bob athro fod yn gyfarwydd a chynnwys y Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol
- Rhaid i bob athro fod yn hyderus o'i dealltwriaeth o ddisgwyliadau'r datganiadau allan o'r Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol: mae hwn yn hyrwyddo hyder yn eu galli i asesu sgiliau'r dysgwyr
- Angen datblygu Portffolio Rhifedd i sicrhau cysondeb yn nealltwriaeth yr athrawon o'r datganiadau dros gylch o ddwy flynedd.
- Angen sicrhau bod system recordio mewn lle i asesu sgiliau rhifedd y dysgwyr
- Mae asesu'r un sgil nifer o weithiau yn galluogi'r athro i dracio cynnydd y disgybl yn y sgil hwnnw
- Defnyddir y Profion Rhifedd Cenedlaethol fel offer asesu ar gyfer dysgu ac yna defnyddir y canlyniadau i lywio'r cynllunio
- Bydd angen paratoi a chadw cofnod o gynnydd pob disgybl, gobeithir y bydd system Incerts yr ysgol yn gwneud hyn o Fedi 2014.

Monitro a Gwerthuso

Bydd angen monitro'r datblygiadau yn barhaus

- Drwy gwblhau pob rhan o'r cynllun datblygu fe fydd modd gwerthuso'r cynnydd mae'r ysgol yn gwneud i sefydlu'r fframwaith Rhifedd Cenedlaethol
- Bydd angen dyfeisio proses o fonitro cynlluniau gwersi ac arsylwi gwersi i werthuso cynnydd athrawon i allu cyflwyno gwersi sydd yn ffocysu ar ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm
- Bydd angen monitro a gwerthuso safon y dysgwyr mewn rhifedd drwy asesu parhaol, tracio canlyniadau profion blynyddol a datblygu proffiliau dysgwr
- Bydd angen gwerthuso rhaglenni ymyrraeth drwy gymharu canlyniadau profion ar ôl yr ymyrraeth a'r waelodlin
- Arsylwi gwersi, Portffolio Rhifedd a chymedroli gwaith y dysgwr bydd rhai o'r ffyrdd all cael eu defnyddio i werthuso
- cysondeb yn y ffordd y mae rhifedd yn cael ei addysgu.

Sicrhau cysondeb wrth weithredu'r Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol

Datblygu ymresymu rhifyddol

Mae'n orfodol bod yr ymdriniaeth o ddatblygu ymresymu rhifyddol y dysgwr yn gyson ar draws y cwricwlwm. Mae'r galli i feddwl yn feirniadol ac i ddefnyddio sgiliau rhesymu rhifyddol yn bwysig er mwyn datblygu rhifedd fel sgil bywyd. Mae'r galli i fedru meddwl yn rhesymegol yn gyd-destun rhifedd yn un o'r elfennau mwyaf sylfaenol, yn un sy'n bresennol gan blant cyn iddynt gael eu cyflwyno i Fathemateg

Mae angen i ddysgwyr ddeall pwysigrwydd y tair elfen o fewn y llinyn.

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth drylwyr o'r llinyn a dealltwriaeth o ofynion y datganiadau bydd angen cynnal hyfforddiant ysgol gyfan.

Defnyddio sgiliau rhif

Mae ymchwil wedi adnabod yr angen o ymdriniaeth gyson ar draws y cwricwlwm wrth ddatblygu sgiliau rhif dysgwyr. Mae angen i bob athro dderbyn bod dysgwyr yn medru defnyddio amrywiaeth o dulliau i ddod o hyd i'r ateb cywir. Mae'r dulliau yn dibynnu ar gymysgedd o sgiliau, syniadau a ffeithiau: bydd y dysgwyr yn dewis ei hoff ffyrdd o wneud hyn. Gellir dilyn yr awydd i symud disgyblion ymlaen i algorithmau ffurfiol a'r dulliau mwyaf effeithlon, ond ni ddylid gwneud hyn ar draul cael dull yn unig yn hytrach na dealltwriaeth lawn a chydlynol.

Mae angen i'r dysgwyr ddeall y pwysigrwydd o'r pum elfen o fewn y llinyn e.e. pwysigrwydd o fedru defnyddio'r pedair rheol yng nghyd-destun arian.

Mae angen sicrhau:

- dealltwriaeth gyffredin o'r llinyn datblygu rhif
- bod strategaethau ac adnoddau cyffredin yn cael eu defnyddio gan yr holl staff
- bod pawb yn ymwybodol o'r dulliau estynedig, gyda ffocws ar y 4 rheol

Defnyddio sgiliau mesur

Mae ymchwil wedi darganfod yr angen o ymdriniaeth gyson ar draws y cwricwlwm wrth ddatblygu sgiliau mesur dysgwyr. Mae'r sgil o fesur yn cael ei gynnwys o fewn y wers Fathemateg ac ar draws y cwricwlwm.

Mae angen i'r dysgwyr ddeall pwysigrwydd y pedwar elfen o fewn y llinyn e.e. pwysigrwydd o fedru dewis yr unedau mesur cywir o fewn tasg benodol.

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth drylwyr o'r llinyn a dealltwriaeth o ofynion y datganiadau bydd angen cynnal hyfforddiant ysgol gyfan.

Defnyddio sgiliau data

Mae ymchwil wedi darganfod yr angen o ymdriniaeth gyson ar draws y cwricwlwm wrth ddatblygu sgiliau data dysgwyr. Mae'r sgil o ddata yn cael ei gynnwys o fewn y wers Fathemateg ac ar draws y cwricwlwm.

Mae angen i'r dysgwyr ddeall y pwysigrwydd y tair elfen o fewn y llinyn

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth drylwyr o'r llinyn a dealltwriaeth o ofynion y datganiadau bydd angen cynnal hyfforddiant ysgol gyfan.

Rôl a defnydd cyfrifiannellau

Mae rôl y cyfrifiannell fel teclyn i wneud cyfrifiadau yn amlwg o fewn y Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol

- dewis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell

Gellir ystyried y pwyntiau canlynol:

- Ble yn eich pwnc mae disgwyl i'r dysgwyr ddefnyddio cyfrifiannell?
- A oes sefyllfaoedd yn codi pan i chi'n teimlo na ddylai'r dysgwyr ddefnyddio cyfrifiannell?
- A yw'r amseru o ddefnyddio'r cyfrifiannell o fewn eich pwnc yn cyfateb yn ffafriol i'r cynllun gwaith mathemateg?

Rôl a Chyfrifoldebau

Pennaeth

- nodi anghenion penodol yr ysgol o ran y cwricwlwm a gweithgarwch asesu, ystyried y posibiladau a dod i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth y cwricwlwm cyfan a chynllunio llwybrau dysgu er mwyn diwallu anghenion dysgwyr unigol
- nodi cyfleoedd i rannu arfer da o fewn yr ysgol a hwyluso hynny
- monitro'r amrywiaeth o weithgareddau addysgu a dysgu, gan sicrhau bod dulliau gweithredu wedi'u hintegreiddio'n llawn
- adolygu a diweddarau addysgeg drwy ddarparu hyfforddiant priodol gan sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol rhwng ysgolion a/neu o fewn ysgolion sy'n defnyddio athrawon eithriadol ym meysydd llythrennedd a rhifedd i weithredu fel arweinwyr systemau
- gweithio gyda chydlynwyr llythrennedd a rhifedd er mwyn cydlynu adborth i rieni/gofalwyr
- gweithio gyda chydlynwyr llythrennedd a rhifedd er mwyn trefnu a darparu hyfforddiant ar gyfer yr ysgol gyfan
- gwerthuso effaith yr hyfforddiant hwn o ran codi safonau i bob dysgwr
- monitro a gwerthuso safonau llythrennedd a rhifedd drwy'r ysgol gyfan ac effaith camau a gymerwyd i geisio codi'r safonau hyn a chyflwyno adroddiadau i'r llywodraethwyr

Cydlynwr Rhifedd (Pennaeth)

Dylai **cydlynwr** adolygu darpariaeth y FFLIRh a nodi cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd

- archwilio enghreifftiau presennol o arfer da ym meysydd llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- cydlynu'r gwaith o lunio/adolygu un o bolisiau'r ysgol ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- nodi pa feysydd o lythrennedd a rhifedd y mae athrawon leiaf hyderus yn eu haddysgu yng nghyd-destun pwnc penodol a thrafod y mesurau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd gydag uwch reolwyr
- hwyluso hyfforddiant mewn swydd yn yr ysgol sy'n ymdrin ag agweddau ar lythrennedd a rhifedd
- gwerthuso'r effaith a gaiff gweithredu'r FFLIRh a'r dulliau uchod ar yr ysgol gyfan.

Cydlynwyr pynciau / athrawon

- gweithio'n agos gyda phynciau eraill i gydlynu rhaglenni gwaith, gan gynnwys amseru camau i addysgu strategaethau a chysyniadau penodol
- nodi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn cynlluniau gwaith/cynlluniau dysgu
- mapio dilyniant o ran sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

- sicrhau y caiff sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n gysylltiedig â'r FfLIRh eu cymhwyso mewn modd cydlynol a chyson ar draws y pwnc a chan bob aelod o staff addysgu
- sicrhau y caiff sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n gysylltiedig â'r FfLIRh eu cymhwyso mewn modd cydlynol a chyson ar draws pynciau eraill a chan bob aelod o staff addysgu
- gweithio gydag adrannau ac athrawon i gynllunio tasgau cynyddol, gwahaniaethol a heriol a fydd yn galluogi dysgwyr i ddangos dealltwriaeth a datblygu ac atgyfnerthu'r ystod lawn o sgiliau llythrennedd a rhifedd
- cysylltu â chydlynwyr llythrennedd a rhifedd er mwyn rhannu asesiadau ffurfiannol o ddysgwyr a charfanau o ran meysydd o gryfder a meysydd i'w datblygu
- monitro a gwerthuso effaith y dulliau gweithredu hyn ar safonau dysgu mewn pynciau.

Dylai pob athro/athrawes:

- fod yn gyfarwydd â'r FfLIRh a dilyniant drwyddo
- deall pwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn perthynas â chodi safonau gwaith yn eu pynciau eu hunain
- integreiddio'r sgiliau hyn yn llawn yn eu cynlluniau er mwyn rhoi profiadau dysgu newydd, cyffrous i ddysgwyr
- nodi cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd o fewn pynciau ac ar draws y cwricwlwm
- cynllunio i roi sylw i sgiliau llythrennedd/rhifedd ym mhob gwers
- cynllunio tasgau a fydd yn galluogi dysgwyr i ddangos dealltwriaeth a datblygu ac atgyfnerthu'r amrywiaeth o sgiliau llythrennedd a rhifedd
- cysylltu â chydlynwyr llythrennedd a rhifedd, penaethiaid pynciau/cydlynwyr pynciau ac athrawon pynciau eraill er mwyn nodi'r cyd-destunau gorau i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- nodi meysydd i'w mireinio ac awgrymu'r ffyrdd gorau o wella ymhellach fel rhan o'u 'sgyrsiau asesu' parhaus â dysgwyr, gan integreiddio sylwadau ynghylch sgiliau llythrennedd a rhifedd yn eu trafodaethau a'u hadborth o ddydd i ddydd
- monitro a gwerthuso effaith y dulliau gweithredu hyn.

Dylai Llywodraethwyr:

- fod yn hollol ymwybodol o'r Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol
- apwyntio llywodraethwr penodol i fod a chyfrifoldeb am rifedd
- fod yn hollol glir o'r gwahaniaeth rhwng rhifedd a mathemateg ac i newid unrhyw agwedd negyddol tuag at Rifedd
- fod yn hollol ymwybodol o'r angen i wella lefel rhifedd dysgwyr, a'r manteision o wneud hynny
- fod yn ymwybodol o strategaethau ac adnoddau a ddefnyddir i hyrwyddo ymgorffori'r Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol
- gael y cyfle i arsylwi arfer dda lle mae rhifedd yn cael ei gyflwyno ar draws y cwricwlwm
- gyfrannu tuag at ymdrechion yr ysgol i ddarbwylllo rhieni i fod yn rhan o addysg eu plant yng nghyd-destun rhifedd

Dylai Rhieni/Gofalwyr:

- fod yn ymwybodol o bwysigrwydd gwella sgiliau rhifedd eu plant a'r manteision o wneud hynny
- fod yn hollol glir o'r gwahaniaeth rhwng rhifedd a mathemateg ac i newid unrhyw agwedd negyddol tuag at Rifedd
- fod yn ymwybodol o'r strategaethau a'r adnoddau sy'n hybu gwell dealltwriaeth o rifedd
- fod yn ymwybodol o'r person sydd yn gyfrifol am rifedd o fewn yr ysgol ac i fynychu sesiynau er mwyn derbyn arweiniad i fedru cynorthwyo'r plentyn

Mabwysiadwyd – Dyddiad: _____

Arwyddwyd: _____ **(Cadeirydd)**